Pwyllgor :	**Y PWYLLGOR SAFONAU**
Dyddiad :	**12 Mawrth 2018**
Teitl :	**Honiadau yn erbyn aelodau**
Awdur :	**Swyddog Monitro**
Pwrpas :	**Er gwybodaeth**

1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

2. Penderfyniadau

Cwyn 201704855

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd wedi bod yn rhan o benderfyniad i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd tystiolaeth ddigonol i gadarnhau'r gŵyn bod yr aelod wedi bod yn gyfrifol am ddatgelu'r wybodaeth

Cwyn 7294/201705172

Cwyn gan aelod cyngor tref bod cyd -aelod wedi cyflwyno cwyn flinderus yn ei herbyn i'r Ombwdsmon.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

- Roedd y gŵyn dan sylw wedi ei derbyn gan yr Ombwdsmon fel cwyn i'w hymchwilio, ac felly ni allai ddod i'r casgliad ei bod yn flinderus.

Cwyn 201706038

Cwyn bod aelod wedi defnyddio ei statws fel aelod etholedig i ddylanwadu ar yr heddlu i weithredu yn erbyn yr achwynydd mewn perthynas â chwyn am aflonyddu.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ar y pryd ond fel unigolyn preifat.
- Nid oedd y sylwadau a wnaed gan yr aelod yn effeithio ar enw da'r Cyngor.

Cwyn 201706123

Cwyn gaen aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd wedi gwrthod ymwneud ag ef mewn perthynas â materion yn ymwneud â'i eiddo ac anghydfod rhyngddo â'r Cyngor.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Mater i gynghorydd yw penderfynu os yw am gyfarfod neu ohebu gydag aelodau o'r cyhoedd. Prif ddyletswydd aelodau yw cynrychioli trigolion o fewn eu hetholaethau, ond nid oes rheidrwydd arnynt i ymdrin â phob mater unigol a adroddir iddynt.

3. Achosion Agored

Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **2**

- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **2**

4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth